**ADRODDIAD I'R CABINET**
24 Hydref 2017

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Cynllunio ac Amgylchedd)

**Pwnc:** Cytundeb rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddarparu a chefnogi Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn

**Swyddog Cyswllt:** Gareth Jones, Uwch Reolwr, Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

---

**Y penderfyniad a geisir:**

Awdurdodi Pennaeth yr Adran Amgylchedd a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol i baratoi a gweithredu Cytundeb rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn er mwyn ailsefydlu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn ffurfiol.

Dirprwyo swyddogaethau'r Cabinet yng nghyswllt y materion y cyfeirir atynt yn rhan 6 yr Adroddiad hwn i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

---

**Barn yr Aelod Lleol**

Ddim yn benodol berthnasol yn yr achos hwn.

---

**Cyflwyniad**

**Cefndir**

1. Ar 7 ac 20 Mawrth 2017 fe wnaeth Cabinet Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn gymeradwyo cynnig i barhau i ddarparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer y ddau Awdurdod am bum mlynedd bellach.

2. Roedd penderfyniad y Cabinet hefyd yn awdurdodi Uwch Swyddogion yr Adran Amgylchedd a'r Adran Gyfreithiol i Adolygu rôl

y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd fel corff trawsffiniol i wneud penderfyniadau, cyn adrodd yn ôl i'r Cabinet am gymeradwyaeth.

3. Sefydlwyd rôl y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd drwy gytundeb yn 2011 a daeth i ben pan fabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar 31 Gorffennaf 2017. Felly, mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth bellach gan y Cabinet i ddirprwyo ei swyddogaethau yng nghyswllt y materion y cyfeirir atynt yn rhan 6 isod, i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a ffurfio cytundeb newydd a chefnogi'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd dros y pum mlynedd nesaf.

4. O ystyried bod rôl y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi dod i ben yn sgil mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r cytundeb i barhau â threfniant cydweithio am y pum mlynedd nesaf, mae angen ailsefydlu rôl y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd bellach.

5. Er mwyn parhau â'r trefniant cydweithio ar gyfer darparu'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio, mae angen ailsefydlu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd er mwyn parhau i wneud penderfyniadau trawsffiniol ar rai materion penodol. Ymhellach, mae gofyn i swyddogaethau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ymwneud â gwaith yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd dros y pum mlynedd nesaf a'r ffaith bod gennym gynllun datblygu wedi'i fabwysiadu erbyn hyn.

**Ystyriaethau perthnasol**

**Swyddogaethau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd**

6. Bydd y cytundeb newydd yn debyg iawn i'r cytundeb blaenorol yn 2011, a oedd yn cynnwys cyfrifoldeb i fonitro ac adolygu'r Cynllun. Mae swyddogaethau arfaethedig y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi'u cynnwys isod, gyda'r swyddogaethau newydd wedi'u tanlinellu:

i) Derbyn yr Adroddiad Monitro Blynyddol a chynnig cyngor arno cyn iddo gael ei gyflwyno i'r ddau Gyngor.

ii) Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n gyffredin i'r ddau Gyngor.

iii) Bod yn gyfrifol am adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

iv) <u>Cyflwyno'r adroddiad adolygu a'r cytundeb cyflawni diwygiedig</u>

ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i'r ddau Gyngor gytuno arnynt.

v) Bod yn gyfrifol am ddiwygio'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a chyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd diwygiedig i'r ddau Gyngor i'w mabwysiadu.

vi) Derbyn a chynghori ar restr ffi ardoll ddrafft ar gyfer ymchwiliad cyhoeddus ac ar argymhellion yr Arolygwr cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Cabinet / Pwyllgor Gwaith am benderfyniad.

vii) Derbyn a chytuno ar adroddiad blynyddol ynghylch y drefn cyd-lywodraethu ac ariannu.

viii) Penodi unrhyw banel neu weithgor er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i gyflawni ei swyddogaethau.

7. Mae'r cytundeb cyflawni diwygiedig y cyfeirir at yn iv) yn ddatganiad cyhoeddus sydd yn cynnwys amserlen ar gyfer creu fersiwn diwygiedig o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, yn dilyn yr adolygiad. Mae hefyd yn cynnwys Cynllun Cynnwys Cymunedau, sy'n nodi sut a phryd y gall rhanddeiliaid a chymunedau gyfrannu. Wrth baratoi'r cytundeb cyflawni diwygiedig, disgwylir i'r Awdurdodau adolygu'r cytundeb cyflawni gwreiddiol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, fel bod yr un diwygiedig yn cynnwys yr amserlen ar gyfer diwygio'r Cynllun ac yn egluro sut mae cymunedau'n cael eu cynnwys yn y broses.

8. Mae Ardoll Seilwaith Cymunedol ("y ffi ardoll") y cyfeirir at yn vi) yn declyn i helpu Awdurdodau yng Nghymru (a Lloegr) i gyflawni seilwaith i gefnogi datblygiad yn eu hardal. Er mwyn ystyried darpariaeth ffi ardoll mae'n rhaid i'r Awdurdodau ddilyn proses benodol o asesu tystiolaeth mewn perthynas â darpariaeth seilwaith yn yr ardal dros gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Hefyd, mae angen ystyried effaith posib ffi ardoll ar hyfywdra datblygiadau sydd yn cael ei hwyluso gan y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, wrth ystyried lefel y ffi ardoll neu os gellir cyfiawnhau unrhyw ffi ardoll.

9. O safbwynt Canllawiau Cynllunio Atodol sydd yn effeithio ar ardal weinyddu un Awdurdod yn unig, bydd y rhain yn cael eu darparu i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd er gwybodaeth yn unig. Mewn amgylchiadau fel hyn bydd yna ymgynghoriad ffurfiol gyda'r Awdurdod arall. Bydd yna eglurhad o fewn y Canllaw Cynllunio

Atodol yn amlinellu pam ei fod yn berthnasol i ardal weinyddu un Awdurdod yn unig.

10. Mae'n bwysig nodi y bydd materion mabwysiadu unrhyw Ddiwygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cael eu cadw i'r naill Gyngor a'r llall yn unigol. Ymhellach, bydd materion yn ymwneud â Chraffu yn cael eu cadw gan y naill Awdurdod a'r llall.

**Aelodaeth y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd**

11. Yr unig newid yn nhermau aelodaeth fyddai tynnu'r hawl i benodi Aelodau fel aelodau wrth gefn. Byddai hyn yn gyson â'r newidiadau deddfwriaethol diweddar a gyflwynwyd yng nghyswllt aelodaeth Pwyllgorau Cynllunio, ble mae aelodau wrth gefn bellach wedi'u gwahardd drwy statud.

**Rheolau Sefydlog y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd**

12. Bydd Rheolau Sefydlog y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn unol â Chyfansoddiad Cyngor Gwynedd. Bydd saith aelod o bob Awdurdod ar y Pwyllgor gyda chworwm o bedwar aelod. Bydd Cadeiryddiaeth y Pwyllgor yn cylchdroi bob dwy flynedd rhwng y naill Awdurdod a'r llall. Cyngor Sir Ynys Môn fydd yn cadeirio'r Pwyllgor am y ddwy flynedd gyntaf. Bydd yr un peth yn wir ar gyfer is-gadeiryddion, gyda Gwynedd yn cymryd y rôl hon am y ddwy flynedd gyntaf.

13. Aelodau sydd wedi'u penodi ar y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn unig all bleidleisio a bydd lleoliad y cyfarfodydd yn cylchdroi rhwng Caernarfon a Llangefni, gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal bob chwarter fel arfer.

**Y camau nesaf ac amserlen**

14. Os rhoddir cymeradwyaeth ac awdurdodaeth gan y Cabinet, llofnodir y cytundeb ar ran Cyngor Gwynedd a bydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi'i sefydlu am y pum mlynedd nesaf gyda'i gyfarfod cyntaf wedi'i drefnu ar 17 Tachwedd 2017, ar hyn o bryd.

---

**Barn y Swyddogion Statudol:**

**Swyddog Monitro:**
Mae'r adroddiad yma, sydd wedi ei chytuno gyda Chyngor Sir Ynys Môn wedi bod yn destun arweiniad gan y Gwasanaeth Cyfreithiol. Nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Prif Swyddog Cyllid:**

Rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir, gan fydd parhad y drefn gyfredol o gyd-weithio yn osgoi dyblygu gwaith, ac felly yn osgoi costau ychwanegol fyddai'r Cyngor yn wynebu o weithio'n unigol. Wedi holi'r awdur, deallaf ni fydd unrhyw ymhlygiadau ariannol newydd yn deillio o arwyddo'r cytundeb arfaethedig i ailsefydlu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd am bum mlynedd arall, a bydd y trefniadau ariannu yn parhau'n gyson â'r drefn ddiweddar. Pe bai awgrym i addasu unrhyw agwedd o drefniadau ariannu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, disgwyliaf y byddai'r Pennaeth Amgylchedd yn ymgynghori gyda mi cyn arwyddo'r cytundeb arfaethedig, a pe bai yna addasiad o sylwedd disgwyliaf y byddai'r Pennaeth Amgylchedd yn ei gyfeirio yn ôl i'r Cabinet.